

Datganiad Polisi Cyhoeddus – Crynodeb

Cyllid Gofal Cymdeithasol

Medi 2023

Mae'r datganiad polisi cyhoeddus hwn yn cwmpasu:

1. Yr angen am ofal cymdeithasol.
2. Trefniadau cyfredol ar gyfer talu am ofal.
3. Dadl am gyllid gofal cymdeithasol.
4. Datblygiadau polisi Cymru.
5. Dull Age Cymru.

Mae gofal cymdeithasol wedi dioddef yn hanesyddol o ganlyniad i danariannu ac mae'r sefyllfa hon wedi gwaethygu ymhellach yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i ostyngiadau eang yng nghyllideb y sector cyhoeddus. Gellir rhannu'r cwestiwn o ariannu gofal cymdeithasol yn ddwy ran: cyllid a ddarperir gan y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol; a'r cyfraniad ariannol y mae'n ofynnol i unigolion ei wneud ar gyfer y gofal cymdeithasol y maent yn ei dderbyn.

Mae dadl sylfaenol dros y tegwch sylfaenol o godi tâl ar bobl am y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw. Dylai trefniadau yn y dyfodol ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol sicrhau tegwch o ran "pwy sy'n talu" a "sut rydyn ni'n talu" am ofal cymdeithasol, gan gynnwys rhwng y cenedlaethau, a dylent anelu at fynediad cyffredinol at ofal personol dros amser sy'n rhad ac am ddim ar y pwynt cyflwyno.

Mae'r cyfraniadau y mae'n ofynnol i bobl hŷn eu gwneud yng Nghymru wedi'u trafod yn fanwl yn ein datganiad polisi Gofal Cymdeithasol o dan 'Talu am ofal'.

Barn hirsefydlog Age Cymru yw bod angen sicrhau bod gwasanaethau gofal yn cael eu darparu am ddim ar y pwynt defnydd yn yr un modd â gwasanaethau'r GIG. Byddai hyn yn sicrhau bod gofal ar gael i bawb pan mae angen gan ledaenu cost gwasanaethau gofal ar draws y cenedlaethau, yn hytrach na bod y gost yn disgyn ar y bobl hynny sy'n ddigon anffodus i ddatblygu anghenion gofal, sydd hefyd yn rhwystr i gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen.

Mae angen meddwl yn galed a chynnal trafodaethau cyhoeddus helaeth ar fecanwaith newydd, teg a chynaliadwy ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol; rydym yn awyddus i fod yn rhan o'r gwaith. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r egwyddorion y mae Age Cymru yn credu y dylai unrhyw fecanwaith talu newydd fod

wedi'i seilio arnynt ac mae'n rhoi man cychwyn i Age Cymru ddylanwadu ar bolisi a datblygu safbwyntiau manylach ar sail ailadroddol wrth i delerau'r ddadl ddod yn gliriach.

Egwyddorion Age Cymru

Gofal cymdeithasol:

- Cyfrifoldeb cymdeithasol ar y cyd am ariannu gofal cymdeithasol, gyda chyfrifoldeb am gyllid yn symud o'r unigolyn i'r gymdeithas.
- Model newydd a chynaliadwy o gyllid sy'n deg a thryloyw, sy'n cefnogi cynllunio ar gyfer costau gofal yn y dyfodol.
- Gwasanaethau cynaliadwy sy'n cyflawni canlyniadau personol a lles yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.
- Lles fel sylfaen y gwasanaeth, wedi'i gynnal trwy atal, ailalluogi ac ymyrraeth gynnar lle bynnag y bo'n bosibl, beth bynnag fo'r lleoliad, ac wedi'i gyflwyno i ansawdd uchel fel y gellir hyrwyddo a chynnal annibyniaeth.
- Lle mae angen gofal a chefnogaeth, maent yn cael eu darparu'n addas, yn bodloni anghenion a aseswyd yn holistaidd, mewn ymateb i'r hyn sy'n gysylltiedig â'r unigolyn.
- Gweithlu gofal cymdeithasol estynedig, wedi'i gefnogi'n dda, gwybodus a gwerthfawr, gyda gwerth a statws mewn cymdeithas, gyda gwerthoedd a rennir, yn mwynhau gyrfa ddeniadol a chyflog teg, gyda hyblygrwydd a'r gallu i ddiwallu anghenion newidiol.
- System gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sydd ar gael ar yr adeg cywir yn y lle cywir i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n gwybod ble i fynd i'w gyrchu, sut i'w ddefnyddio a lleoli gwasanaethau yn lleol fel eu bod yn rhwydd i'w defnyddio, ac sy'n ymwneud â chynllunio yn y dyfodol.
- Dull cydgysylltiedig a chytbwys, traws-sector o ddarparu gwasanaethau, gydag asiantaethau lluosog yn dod â'u gwybodaeth a'u profiad o'r gymuned leol at ei gilydd mewn pwyntiau mynediad sy'n hawdd i'w cyrraedd ac sy'n darparu llwybrau clir.
- Mae pob person hŷn yn cael ei ddiogelu'n effeithiol.

Cyllid gofal cymdeithasol

- Risg a rennir gan y gymdeithas.
- Datrysiad hirdymor, cynaliadwy.
- Trefniadau wedi'u seilio ar egwyddorion allweddol tegwch, waeth beth fo'r amodau asesu.
- Trefniadau sy'n dryloyw ac yn syml i'w deall a'u gweithredu.
- Cwmpas o wasanaethau sy'n seiliedig ar les, sy'n cwmpasu iechyd, tai a gofal cymdeithasol.

Mesurau canlyniadau eang Age Cymru yw:

- Mae digon o arian yn y system i sicrhau atal, ymyrraeth gynnar, ailalluogi a gofal o ansawdd uchel a phriodol.
- Mae pob elfen o'r system gofal a chymorth yn cael ei ariannu'n ddigonol i gynhyrchu canlyniadau o ansawdd uchel.
- Mae ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal a thrwy ofal gartref yn cael ei gefnogi gan lefelau cynaliadwy o gyllid.
- Mae pobl hŷn a'u cynrychiolwyr yn cyd-gynhyrchu modelau gofal o'r cam cynharaf.
- Mae pobl yn gallu cynllunio ar gyfer gofal hirdymor yn hwyrach mewn bywyd.
- Mae gwasanaethau yn canolbwyntio ar y person.

Mae Age Cymru yn disgwyl i nifer o nodweddion o'r system bresennol ddiflannu o ganlyniad i unrhyw system ariannu newydd, gan gynnwys:

- risgiau oherwydd meini prawf cymhwysedd gwahanol.
- hunan-ariannu mewn cartrefi gofal sy'n croes-gymhorthdal preswylwyr a ariennir gan y cyngor.

Crynodeb o gynigion polisi cyhoeddus

- Dylai gofal cymdeithasol fod yn rhad ac am ddim ar y pwynt angen, yn unol â gofal iechyd.
- Dylai pobl hŷn fod yn bartner annatod wrth wneud penderfyniadau am y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Dylai hyn gynnwys ystod o gyfleoedd mewn gwahanol ffyrdd dros amser ac nid fel 'cyfle untro' yn ddiweddarach mewn ystyriaethau dylunio gwasanaeth.
- Dylid cefnogi pob person hŷn i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch cynnal a gwella eu hiechyd a'u hannibyniaeth.
- Dylid cynyddu cyfleoedd ar gyfer byw'n iach a dileu'r rhwystrau, yn enwedig i bobl hŷn dan anfantais.
- Rhaid i negeseuon iechyd cyhoeddus dargedu cynulleidfaoedd hŷn yn y ffordd fwyaf priodol a thrwy'r sianeli mwyaf perthnasol.
- Rhaid i seilwaith cymunedol digonol, dylunio tai fforddiadwy a thechnoleg gynorthwyol fod ar gael i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol cyhyd ag y dymunant.
- Rhaid i'r dull o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod i hwyluso, annog a chefnogi'r broses o ddod o hyd i ffyrdd gwell o fyw a hunan-ofal ymhlith y rhai a allai fel arall fod angen gofal a chefnogaeth ychwanegol. Mae gan hyn oblygiadau i hyfforddi ac addysgu staff ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a rôl ehangach ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.
- Rhaid i fyrdau partneriaeth rhanbarthol asesu ar frys sut y gellir adnoddu angen heb ei ddiwallu yn y tymor byr a chynllunio datblygu gwasanaethau ar gyfer anghenion sy'n dod i'r amlwg yn y tymor hir.

- Cyn belled â bod y trefniadau presennol yn parhau, rhaid cryfhau'r Cod Ymarfer Statudol ar Ffioedd Ychwanegol ar gyfer Cartrefi Gofal er mwyn osgoi sefyllfaoedd annheg ble mae teuluoedd yn gorfod talu symiau sylweddol am ofal eu perthynas.
- Rhaid i'r Cod Ymarfer gael ei ddilyn gan bob Cyngor yn gyson ac yn deg.
- Wrth ystyried y newidiadau a ddisgwylir wrth symud tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol Cymru, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a byrddau partneriaeth rhanbarthol yn archwilio'r trefniadau presennol ac yn nodi sut bydd modd dileu rhwystrau wrth dalu am ofal.
- Tra bod y cynllun Taliadau Gohiriedig ar waith, dylid gwella ymwybyddiaeth o'r cyfleuster hwn a'i amodau, a dylai pob Cyngor a chyrff eraill sydd â diddordeb ei hyrwyddo pan fydd pobl yn ystyried symud i gartref gofal.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Y Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Heol Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2023.